## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 14 Hydref 2015 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Cadeirydd), Brian Blakeley, Joan Butterfield, Bill Cowie, Richard Davies, Stuart Davies, Huw Hilditch-Roberts, Pat Jones, Barry Mellor, Win Mullen-James (Is-Gadeirydd), Bob Murray, Peter Owen, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, David Simmons, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams a Huw Williams

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB); Prif Gyfreithiwr – Cynllunio a Phriffyrdd (SC); Prif Swyddog Cynllunio (IW); Swyddog Rheoli Llygredd (SA) a’r Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

### PWYNT O WYBODAETH

Dywedwyd wrth y pwyllgor, oherwydd materion technegol, ni fyddai'n bosibl gweddarlledu’r cyfarfod.  Roedd y system bleidleisio electronig a’r sgriniau arddangos tu mewn i'r siambr dal yn gweithio.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Jeanette Chamberlain-Jones, Meirick Davies, Peter Evans, Rhys Hughes, Alice Jones, Dewi Owens a Merfyn Parry.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 16 Medi 2015 i’w cymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi, 2015 fel cofnod cywir.*

### CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 5 a 6)

Cyflwynwyd ceisiadau oedd yn ceisio penderfyniad y pwyllgor ynghyd â'r dogfennau cysylltiol. Cyfeiriwyd hefyd at yr wybodaeth a gyflwynwyd yn hwyr (taflenni glas) a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r rhaglen ac yn ymwneud â'r ceisiadau penodol.

## 5 CAIS RHIF 23/2015/0463/PFT-TIR YN CEFN YFED, CYFFYLLIOG, RHUTHUN

Cyflwynwyd cais i osod un tyrbin gwynt 500 kw gyda both uchder o 48m a diamedr rotor o 45m a gwaith cysylltiedig ar Dir yn Cern Yfed, Cyffylliog, Rhuthun.

**Siaradwyr Cyhoeddus -**

Mrs. J. Williamson **(Yn erbyn)** – Roedd yn gwrthwynebu'r cais ar sail mwynderau gweledol ac effaith sŵn ac yn siarad ar ran nifer o drigolion lleol yn y cyffiniau a fyddai'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y datblygiad, gan amlinellu eu pryderon.

Mr. M. Jones (**o blaid**) – manylodd am gysylltiadau ei deulu i'r fferm a phwysleisiodd bwysigrwydd y datblygiad ar gyfer cynaliadwyedd y busnes fferm yn y dyfodol sydd hefyd yn darparu cyflogaeth yn lleol. Dadleuodd na fyddai'r tyrbin yn amharu ar y gorwel; roedd yn sylweddol dawelach na thyrbinau eraill, ac o ran effaith gronnus, cwestiynodd a fyddai cynlluniau eraill yn cael eu caniatáu i'w hadeiladu.

**Trafodaeth Gyffredinol** - Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod y cais yn un o saith o geisiadau heb eu penderfynu ar hyn o bryd yn ymwneud â datblygiadau tyrbinau sengl ac roedd yn bwysig ystyried pob un yn ôl ei rinweddau ei hun. Roedd y rhesymau tu ôl i argymhelliad y swyddogion i wrthod y cais yn yr achos hwn wedi cael eu nodi yn yr adroddiad yn seiliedig ar effeithiau ar y dirwedd/ gweledol a sŵn.

Roedd y Cynghorydd Joe Welch (Aelod Lleol) wedi ystyried manteision prosiect arallgyfeirio’r fferm ac effaith andwyol ar y dirwedd a sŵn. Ar ôl ystyried maint a lleoliad y datblygiad, barn Ymgynghorydd Tirwedd y Cyngor, ac o ystyried pryderon y Swyddog Rheoli Llygredd bod y lefelau sŵn yn rhy uchel ac ni ellid eu rheoli'n briodol, cynigiodd y Cynghorydd Welch bod y cais yn cael ei wrthod yn unol ag argymhellion y swyddogion ar sail effaith ar y dirwedd/ amwynder gweledol ac effaith sŵn.

Yn ystod y drafodaeth roedd rhywfaint o gydymdeimlad â'r cais ac ystyriodd yr aelodau a oedd y manteision o arallgyfeirio’r fferm yn gorbwyso'r pryderon o ran effaith gweledol a sŵn. Roedd yr Aelodau yn arbennig o bryderus ynghylch yr effaith sŵn posibl a gofynnwyd am eglurhad a thystiolaeth bellach i gefnogi rhesymau’r swyddogion y byddai lefelau sŵn yn rhy uchel ac ni ellid eu rheoli'n ddigonol. Cyfeiriwyd hefyd at y sylwadau hwyr a gyflwynwyd gan y Cyd-bwyllgor AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (fel y manylwyd yn y taflenni glas) a chwestiynodd yr aelodau eu rôl o fewn y broses ac ailadroddodd pryderon blaenorol eu bod yn gweithredu y tu allan i'w cylch gorchwyl. Cadarnhaodd y Cadeirydd bod y swyddogion yn rhoi sylw i hyn ac eglurodd y Prif Swyddog Cynllunio fod yr argymhelliad yn yr achos hwn wedi cael ei wneud cyn derbyn sylwadau’r Cyd-bwyllgor AHNE.

Ymatebodd y Swyddog Rheoli Llygredd i gwestiynau ynghylch effaith sŵn a dywedodd, ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd, na allai gefnogi'r cais. Esboniodd y prosesau a ddefnyddiwyd wrth asesu lefelau sŵn gan roi gwybod bod y lefelau sŵn wedi cael eu tanamcangyfrif yn yr achos hwn, heb unrhyw lwfans ar gyfer ansicrwydd, ac felly roedd yn debygol o dorri'r terfyn 35dB ar gyfer tyrbinau sengl. Roedd y tanamcangyfrif hwnnw hefyd wedi cael ei ddwyn ymlaen fel rhan o'r asesiad sŵn cronnus nad oedd wedi cymryd i ystyriaeth lefelau a ganiateir, a thrwy hynny'n cynyddu'r tanamcangyfrif. Roedd cwynion am sŵn sy'n deillio o dyrbinau yn brin yn gyffredinol oherwydd ei fod yn arferol i swyddogion fod yn fodlon ynghylch lefelau sŵn yn ystod y broses sgrinio gychwynnol ar gyfer ceisiadau. Fodd bynnag, roedd y cais hwn wedi methu â dangos y gellid cyflawni neu reoli lefelau sŵn derbyniol. Ystyriodd y Swyddogion ei bod yn amhriodol i roi caniatâd heb allu gosod amod lefel sŵn rhesymol a gorfodadwy a oedd â chael cyfle amlwg o gael eu cyflawni.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Joe Welch, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Win Mullen-James, i gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 5
GWRTHOD - 15
YMATAL - 1

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***GWRTHOD*** *y cais yn unol ag argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad.*

**6 CAIS RHIF 47/2015/0741/PS – GWESTY WHITE HOUSE HOTEL, FFORDD TREFFYNNON, RHUALLT, LLANELWY**

Cyflwynwyd cais ar gyfer cael gwared ar amod rhif 3 o ganiatâd cynllunio cod rhif 47/2011/0527 sy'n ymwneud ag amod defnydd tymhorol sy'n cyfyngu defnydd y safle ar gyfer carafannau teithiol rhwng 31 Hydref a 1 Mawrth yng Ngwesty'r White House Hotel, Ffordd Treffynnon, Rhuallt, Llanelwy.

**Siaradwyr Cyhoeddus -**

Mr. P. Jones-Hughes (**o blaid**) – soniodd am lwyddiant y busnes a'r rhesymeg y tu ôl i'r cais er mwyn darparu ar gyfer ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn ac ateb y galw ar gyfer carafannau teithiol na ddiwallir ar hyn o bryd. Ymatebodd hefyd i sylwadau a godwyd yn ystod y broses ymgeisio fel y manylwyd yn y papurau atodol hwyr (taflenni glas).

**Trafodaeth gyffredinol** - Yn absenoldeb y Cynghorydd Barbara Smith (Aelod Lleol), siaradodd y Cadeirydd ar ei rhan gan ddweud ei bod yn gefnogol o safbwynt Cyngor Cymuned Tremeirchion, Cwm a'r Waen, ond nad oedd digon o resymau cynllunio dros wrthod. Roedd hi wedi nodi'r amod ychwanegol a gynigwyd o ran tirlunio pellach ac yn cefnogi ei osod pe caniateid y cais.

Mynegwyd peth pryder y gellid gosod cynsail ar gyfer meddiannaeth drwy gydol y flwyddyn ar safleoedd carafannau gan arwain at ddefnydd preswyl heb awdurdod a fyddai'n profi’n faich ar wasanaethau'r cyngor. Eglurodd swyddogion y gwahaniaeth rhwng y defnydd o safleoedd carafannau sefydlog a safleoedd carafannau teithiol a chadarnhaodd bod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau yn cadw llygad manwl ar reoleiddio safleoedd carafannau. Roedd y cais yn yr achos hwn yn ymwneud â'r defnydd penodol o'r safle ar gyfer carafannau teithiol yr oedd y swyddogion yn ystyried i fod yn hollol resymol ac yn briodol. O ystyried yr amod bresennol o ran rheolaeth dros ddefnydd gwyliau, roedd swyddogion yn fodlon bod y rheolaethau angenrheidiol ar waith i gyfyngu ar y defnydd i ddibenion gwyliau yn unig ac nid fel man unig neu brif breswylfa.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Bill Cowie, ac eiliwyd gan Julian Thompson-Hill, bod y cais yn cael ei ganiatáu yn unol ag argymhellion y swyddog.

**PLEIDLAIS:**
CANIATÁU - 19
GWRTHOD - 2
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid CYMERADWYO’R cais yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad a’r papurau ategol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.20 a.m.